

EFELYCHU EIN TAD TYNER A THRUGAROG

Nodyn i'r siaradwr:

Diffinia drugaredd drwy ddefnyddio'r Ysgrythurau. Defnyddia esiamplau o'r Beibl i ddangos trugaredd Jehofa a Iesu. Yn olaf, ystyria sut gallwn ni efelychu trugaredd Jehofa

BETH YW TRUGAREDD? (5 mun.)

Ar adegau, cysylltir trugaredd gyda maddau pechodau, ond yn amlach mae'n cyfeirio at fynegi caredigrwydd tuag at y rhai sydd mewn angen (Sal 103:3, 4; *w07-E* 9/15 22 ¶7; *w04-E* 11/1 12 ¶13-14; *cl-E* 225 ¶15)

Er mwyn dangos trugaredd, mae angen dwy elfen: (1) *teimladau* o dosturi neu gydymdeimlad a (2) *gweithredu* i ddarparu cymorth fel y mae'r angen

JEHOFA YW FFYNHONNELL TRUGAREDD TYNER (10 mun.)

Mae trugaredd yn tarddu oddi wrth Jehofa, ac mae'n rhan o'i natur [**Darlenna 2 Corinthiaid 1:3**] (*w08-E* 9/1 18, tdn.)

Mae ei deimladau tuag at rai mewn angen fel teimladau cynhesaf mam tuag at ei baban newydd (Esei 49:15)

Mae ei drugaredd yn ddiuedd (Lc 6:32-36)

“Y mae ef yn peri i'w haul godi ar y drwg a'r da, ac yn rhoi glaw i'r cyfiawn a'r anghyfiawn” (Mth 5:45)

Mae'r Beibl yn llawn enghreifftiau o Jehofa yn dangos trugaredd i'r Israeliad fel grŵp (Sal 78:38-41)

Pan ofynnwn nhw am help Jehofa, yr oedd yn “tosturio wrthynt,” er mai camgymeriadau eu hunain oedd wedi arwain at eu sefyllfa (Bar 2:17, 18; 3:7-9, 12-15)

Cyrhaeddodd ei drugaredd ei therfyn gyda deg llwyth teyrnas ogleddol Israel, wrth iddyn nhw barhau ar eu llwybr ystyfnig (Ho 1:6, tdn.; *w05-E* 11/15 18 ¶8-9)

Pan fydd unigolyn yn edifarhau ac yn newid cwrs eu bywyd, mae Jehofa yn barod i faddau ac i ddangos trugaredd (Ex 34:6, 7)

Dydy hyn ddim yn golygu bod ei gyfiawnder yn cael ei dymheru gan drugaredd; mae cyfiawnder a thrugaredd Duw yn berffaith, ac maen nhw'n cydweithio mewn harmoni (*w07-E* 9/15 24 ¶14)

Dangosodd Jehofa drugaredd i Dafydd wrth iddo edifarhau am ei bechodau difrifol (Sal 32:1-5; 51:1-4)

Efallai un o'r rhesymau y maddeuodd Duw i Dafydd oedd ei fod wedi dangos trugaredd tuag at Saul (*w12-E* 11/15 23 ¶10)

EFELYCHODD IESU EI DAD YN BERFFAITH WRTH DDANGOS TRUGAREDD (8 mun.)

Mewn ffordd ymarferol, dangosodd Iesu bwysigrwydd fod yn drugarog, a sut i'w ddangos yn iawn

Mae'n rhaid i ni ddangos trugaredd er mwyn cynnal perthynas dda â Jehofa (Mth 9:13; *jd-E* 146-147 ¶13)

Mae'n rhaid i'n rhesymau dros ymestyn trugaredd fod yn bur er mwyn plesio Jehofa (Mth 6:1-4)

Mae trugaredd yn gofyn am weithred bositif (Lc 10:29-37; *w07-E* 9/15 26 ¶1-2)

Fel Jehofa, dangosodd Iesu dosturi ar bob achlysur addas

Nid oedd yn ddideimlad wrth gyflawni gwyrthiau

Yn hytrach, dangosodd deimladau tyner a thosturiol (Mth 20:30-34; Mc 1:40-42; *w08-E* 8/15 15 ¶15)

Roedd teimladau tyner Iesu tuag at bobl yn ei symbylu i “ddysgu llawer iddynt” (Mc 6:34)

DALIWCH ATI I EFELYCHU JEHOFA DRWY FOD YN DRUGAROG (7 mun.)

Mae Jehofa eisiau i ni ymateb i'w drugaredd drwy fod yn drugarog tuag at eraill [**Darlenna Luc 6:36**]

Ym mha ffyrdd gallwn ni wneud hynny?

Efelychwch Jehofa drwy fod yn faddeugar (Mth 18:23-35)

Cysurwch eraill yn ystod eu treialon gyda geiriau calonogol [**Darlenna 2 Corinthiaid 1:4**] (*w08-E* 9/1 18 ¶6; *w98-E* 2/15 26 ¶5)

Gwnewch ddaioni i eraill, a rhannwch yr hyn sydd gennych â nhw (Heb 13:16; 1In 3:17, 18)

Helpwch lenwi anghenion ysbrydol pobl drwy rannu'r newyddion da â nhw

Wrth ddangos trugaredd tuag at eraill, fe fydd Jehofa'n dangos trugaredd tuag aton ni (Mth 5:7; Iag 2:13; *w07-E* 9/15 25 ¶19)

Byddwn hefyd yn fodlon o wybod ein bod ni'n efelychu ein Duw trugarog (Sal 116:5)

[Glyna'n agos wrth y deunydd yn yr amlinelliad, a chadwa at yr amser a nodwyd ar gyfer pob rhan. Does dim angen darllen na thrafod pob testun y cyfeirir ato. Gweler y llyfr *Ministry School*, tudalennau 52-55, 166-169]